



Wrth iddynt wneud cynnydd

Fi ataf Ti ataf Fi

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anoguch y plant i archwilio'r canlynol:

- Gweithio fel pâr i anfon a chael pêl, a phob plentyn yn aros yn ei 'ochr/hanner' ef o'r 'ardd'
- Gweithio fel pâr: Mae 'A' yn anfon pêl yn erbyn wal er mwyn i 'B' ei chael. Mae 'B' yn anfon y bêl yn ôl yn erbyn y wal, ac mae 'A' yn ei chael
- Cadw'r gwrthrychau yn yr 'ardd'. Dylent geisio cwblhau'r rali hiraf



Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, ymwybyddiaeth ofodol
- Rholio, taflu dan ysgwydd, cicio, taflu dros ysgwydd, dal, gwrthio, llywio, rhedeg ar ôl, dilyn, casglu, codi
- Cymryd eu tro, cydweithio
- Adlamu, onglau

Cyfleoedd i:

- ddatblygu sgiliau cydsymud a rheolaeth gynyddol
- anfon a chael gwrthrych dros bellterau hirach
- datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o le y gellir gweithio'n ddiogel ynddo

Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sialc
- Bagiau ffa/teganau meddal
- Amrywiaeth o beli, gan gynnwys peli cadw'n heini
- Balûns
- Amrywiaeth o fatiau, eitemau y gellir eu defnyddio i wrthio
- 'Gardd' wedi'i rhannu'n ddau hanner ar gyfer dau blentyn: fy 'ochr/hanner' i a'th 'ochr/hanner' di

Cwestiynau

- Â pha bêl yr enilloch chi eich sgôr uchaf?
- Pa bêl rydych chi'n mwynhau chwarae â hi fwyaf?
- Beth wnaethoch chi i sicrhau eich bod chi'ch dau'n ddiogel pan oeddech yn anfon pêl at wal ac yn ei chael wedyn?
- Beth mae angen i chi a'ch partner ei wneud i ennill sgôr uwch?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn gweithio mewn 'gerddi'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu sgiliau cydsymud a rheolaeth gynyddol?
- Yn anfon ac yn cael gwrthrych dros bellterau hirach?
- Yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o le y gellir gweithio'n ddiogel ynddo?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- ymarfer pob agwedd cyn chwarae gêm
- anfon a chael dros bellterau byr
- casglu/dal y bêl neu'r gwrthrych, a dychwelyd i ganol ei hanner ef cyn ailanfon y gwrthrych

Anogwch y plentyn i:

- anfon a chael gwrthrych dros bellterau hirach
- anfon y gwrthrych at ei bartner, a symud i gyffwrdd â llinell neu smotyn cyn dychwelyd i ddal y bêl eto
- llunio rheolau mwy cymhleth

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Mathemategol: Siâp, safle a symud – datblygu ymwybyddiaeth o safle a symud yn ystod eu gweithgareddau corfforol eu hunain
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Fi fy hun a phethau nad ydyn nhw'n fyw – didoli gwrthrychau'n ôl y rhai sy'n bounsio neu'n adlamu a'r rhai nad ydynt yn bounsio neu'n adlamu